Agimat (3 mun)
Ffilm Super 16mm, sain

Mae *Agimat* yn mynd ar daith reddfol sy'n olrhain ymweliad y bardd Allen Ginsberg â dyffryn Llanddewi Nant Hodni yng Nghymru. Mae medal wyrthiol, a dderbyniwyd yn rhodd cyn y daith, yn troelli oddi ar ddrych ôl car, gan alinio â cherflun o'r Forwyn Fair yng Nghapel-y-Ffin yn yr adlewyrchiad. Mae swyndlysau eraill, yn cynnwys rhai o gasgliad Edward Lovett yn Amgueddfa Cymru, yn cael eu troelli gan law mewn maneg: mae sŵn darnau arian yn troi yn eu hadalw i rym yn addfwyn ar ôl yr hanesion o gael eu hechdynnu, eu dadleoli neu eu rhoi mewn blychau mewn archifau. Mae'r ffilm yn drifftio trwy ofod breuddwydiol, gan fyfyrio ar y foment pan fod symbolau yn dechrau cymryd presenoldeb go iawn.

Mythologies
Swynoglau efydd bwrw

Mae'r gyfres hon o swynoglau yn tynnu ar draddodiadau *anting-anting* yr Ynysoedd Philippines – credir bod i'r swyndlysau hyn bwerau hudol, gwarcheidiol. Mae pob un yn archwilio ffased wahanol o atgof, mudo, a chred: o ofal cyfunol a hiraeth diasporig i'r llinellau aneglur rhwng ffydd, dilyniaeth a ffuglen. Mae *Mythologies* wedi'i wreiddio mewn hanesion personol a gwleidyddol ac mae'n myfyrio ar sut mae talismonau'n gallu newid o fod yn symbolau etifeddol i offer ar gyfer llywio'r presennol.

Casgliadau o swyndlysau
Gwrthrychau o gasgliad personol a chasgliad Edward Lovett

Ymhlith y swyndlysau hyn mae gwrthrychau llywio (carreg gwrach, cragen gwmpawd) sy'n adleisio'r ymdeimlad sythweledol o gyfeiriad a archwilir yn yr arddangosfa*;* tra bod eraill (swyndlws pysgodyn o Indonesia, dant teigr o'r Congo) yn codi cwestiynau ynghylch dadleoli trefedigaethol: beth sy'n digwydd pan fod swyndlws yn cael ei symud o'i gartref? I ble caiff ei egni ei gyfeirio? Pwy mae'n ei ddiogelu?

MMMM NOTE Kerstin Kartscher a Sadia Pineda Hameed
Pin inc ar bapur

Mae *MMMM NOTE* yn ail-ddychmygu gwerth fel rhywbeth sy'n cael ei lunio gan reddf, cred, a dychymyg cyfunol, yn hytrach na gan lafur neu alw'r farchnad. Gwnaed y gwaith mewn cydweithrediad â Kerstin Kartscher, ac mae'n tynnu ar dalebau llafur o'r 19eg ganrif a grëwyd gan y diwygiwr cymdeithasol Robert Owen, a welir yma hefyd. Gydag *MMMM NOTE*, mae'r daleb yn dod yn ffugiad chwareus ac yn swynogl ar gyfer dyfodol lle mae breuddwydio'n gynhyrchiol, ac mae gorffwys yn fath ar wrthwynebiad.

ORIEL 1
Agimat - Sadia Pineda Hameed
31 Mai - 16 Awst 2025

Mae *Agimat* yn arddangosfa solo gan Sadia Pineda Hameed sy'n archwilio hanes swyndlysau cyn-drefedigaethol ac ôl-drefedigaethol.

Trwy gasgliad o wrthrychau, cerfluniau, a fideo, mae Sadia yn ystyried hanesion gwerth amgen, tocynnau, anting-anting (y gred Ffilipino mewn swynoglau a thalismonau), a chasgliad swyndlysau Edward Lovett yn Amgueddfa Cymru, a sut cafodd y rhain eu dadleoli i gasgliad yr amgueddfa. Mae'r gweithiau hyn yn archwilio sut gall tocyn breswylio a choffáu, protestio'n symbolaidd yn erbyn, a diogelu rhag echdynnu a thrais tir, ar yr un pryd.

Mae ***Agimat*** (3 mun) yn ffilm ddolennu super 16mm o ddarnau o daith sy'n aildroedio ymweliad Allen Ginsberg â Dyffryn Llanddewi Nant Hodni. Mae Medaliwn Gwyrthiol, a dderbyniwyd yn rhodd cyn y daith, yn troelli oddi ar ddrych ôl car, gan adlewyrchu cerflun y Forwyn Fair yng Nghapel-y-Ffin – mae eu haliniad yn dynodi arweiniad semiotig y swyndlws. Mae swyndlysau eraill, yn cynnwys y rhai o gasgliad Edward Lovett yn Amgueddfa Cymru, yn cael eu troelli i gyfeiliant sŵn darnau arian yn troi, yn adalwad addfwyn o'u pwerau i ailfywiogi yn sgil eu hanesion o echdynnu, dadleoli ac archifo. Mae'r ffilm yn myfyrio ar y foment pan fod yr elfen symbolaidd yn materoli mewn cyflwr teithiol breuddwydiol.

Mae ***Worlding***, sydd wedi'i beintio ar wal, yn olrhain bywydau tragwyddol symbolaidd atgofion ac etifeddiad ysbrydol ac ymlid mytholegol. Trwy weddill semiotig a gweddnewid, mae'r gerdd yn dangos sut mae hanesion afleoledig yn asgwrneiddio'n god personol, talismanaidd.

Mae ***Mythologies*** yn set o bedair swynogl efydd bwrw sy'n adlewyrchiad o anting-anting, ysbrydolrwydd Ffilipino cyn-drefedigaethol ac ôl-drefedigaethol, a hanesion personol a byd-eang – gan archwilio pŵer llunio llên y tu hwnt i ffuglen.

Mae ***Communion*** yn swynogl sy'n dangos yr amser 4:59am ar un ochr, sydd yn aml yn gysylltiedig â breuddwydio call a chyflyrau hanner a hanner o ymwybyddiaeth, ac mae'r ochr gefn yn dangos yr amser wyth awr ymlaen yn Ynysoedd Philippines. Mae gan y swynogl hon y pŵer i greu telepathi, gan alluogi cyfathrebu gyda'r teulu ar draws pellterau yn y byd breuddwydiol. Mae'r arddangosfa hefyd yn cynnwys gwely dydd gyda blanced Philippine Airlines yn ei orchuddio, sy'n cyfeirio at freuddwydio fel modd ar gyfer teithio a chymuno. Mae swynogl arall, ***Bayanihan***, yn dangos cwt nipa, sydd weithiau'n cael ei godi a'i symud gan gymuned mewn gweithred ddiwylliannol o gyfunoldeb a chymorth cydfuddiannol. Mae'r ochr gefn yn dangos haul, sy'n atgof o'r faner Ffilipino. Mae gan y swynogl hon y pŵer i ennyn undod a gweithredu ar y cyd, yn arbennig wrth ailadeiladu yn sgil dinistr.

Mae ***Love Team*** yn deyrnged chwareus i Guy a Pip, y persona tîm serch gwneud o'r actorion/cantorion Ffilipino, Nora Aunor a Tirso Cruz III. Mae'r dyluniad ar un ochr yn cyfeirio at ddylanwad Americanaidd y diwylliant ffilm a dilyniaeth ar Ynysoedd Philippines, tra bod y tu ôl yn dangos delweddau o Fedaliwn Gwyrthiol a addaswyd i ffurfio llythrennau blaen enw Maria Leonora Theresa, dol o wir faint a hysbysebir fel merch ddychmygol Guy a Pip, y credai rhai dilynwyr ei bod yn 'ymddŵyn difrycheulyd' fyw, hudol. Mae i'r swynogl y pŵer i helpu gwir deimladau i ddod i'r wyneb, a serch yn benodol, ac mae'n dalismon ar gyfer eglurder emosiynol. Mae'r swynogl ***Warp*** yn dal cynhennau Pabyddiaeth werin yn Ynysoedd Philippines. Mae patrwm grid tebyg i fraslun gwehyddu wedi'i wasgnodi arni, gan gyfeirio at yr arferion gwehyddu sythweledol Ffilipino, fel y gwehyddion breuddwydion T'boli. Mae Medaliwn Gwyrthiol Pabyddol ar gadwyn yn ymlapio dros ac o gwmpas y swynogl, gan weithredu fel symbol o warchodaeth yn ei hun, ac fel cofarwydd o'r enghreifftiau o drais mewn trefedigaethu crefyddol. Pŵer y swynogl hon yw diogelu rhag niwed ac egnïon echdynnol.

Arddangosir hefyd ddetholiad o **swyndlysau**, yn rhai personol, ac o gasgliad ethnograffig Edward Lovett yn Amgueddfa Cymru. Yn eu plith, mae swyndlysau llywio fel carreg gwrach a chragen gwmpawd sy'n adleisio'r themâu ffeindio ffordd sythweledol sy'n ymlwybro trwy'r ffilm Agimat. Mae deunyddiau organig fel ambr a haearn pyrit wedi'u cynnwys oherwydd eu hanes hir-sefydlog fel swynoglau amddiffynnol, tra bod 'swynoglau masnach' fel y swyndlws pysgodyn o Indonesia a'r dant teigr o'r Congo yn codi cwestiynau ynglŷn â dadleoliad: i ble mae egni'r swyn yn mynd pan gaiff ei symud o'i darddiad, a phwy neu beth mae nawr yn ei amddiffyn yng nghyd-destun echdynnu adnoddau neodrefedigaethol parhaus?

Datblygwyd ***MMMM NOTE*** yn sgil ymchwil yn Amgueddfa Robert Owen yn Y Drenewydd, ac mae'n ail-ddychmygu cynrychioliadau materol gwerth trwy symbolaeth, gan greu taleb hapfasnachol o ddyfodol lle mae gwerth yn cael ei fesur trwy foddau afresymol, 'dryslyd' o reddf, cred a chonsurio. Mae'r daleb yn arteffact a hefyd yn swynogl ar gyfer byd lle mae gwerth yn llifo trwy ffantasi cyfunol yn hytrach na thrwy alw'r farchnad, ac mae gorffwys yn cael ei werthfawrogi fel lleoliad ar gyfer cynhyrchiant a gweithgaredd radical. Yn gydweithrediad rhwng yr artistiaid Kerstin Kartscher a Sadia Pineda Hameed, mae'r gwaith yn tynnu ar dalebau llafur Robert Owen yn y 19eg ganrif (a arddangosir hefyd) i greu ffugiad chwareus, sy'n dad-adeiladu gwerth fel rhywbeth a ddychmygir yn hytrach nag a ddyroddir. Daw'r teitl o'r *MMMMMMM...Manifesto* (1965) gan David Medalla, lle mae'r artist yn breuddwydio am 'gerfluniau heb obaith, gydag oriau effro a chwsg.'

Arddangosir *MMMM NOTE* yn Oriel Bwrdd Posteri Llantarnam Grange hefyd.

Mae *Agimat* yn rhan o Perspective(s), sef cydweithrediad rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru.

Gyda diolch i Kerstin Kartscher, Uist Corrigan, Lisa Evans, Harun Morrison, Sioned Williams, Elen Philips, Colin Laker, Amgueddfa Robert Owen, not/nowhere a Coles Casting.

LLANTARNAM GRANGE AMGUEDDFA CYMRU Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government